1.81

Hanes Llofruddiaeth Druenus

# HANNAH DAVIES,

Ar Fynydd Pencarreg, yn Swydd Gaerfyrddin.

---

Cafodd Dafydd Evans ei grogi yn Ngharchar Caerfyrddin, Medi 21ain, 1829, am lofruddio ei gariad-ferch Hannah Davies. Cyflawnwyd y weithred anfad ar nos Sadwrn, Mehefin 13eg, yn yr un flwyddyn, a deuwyd o hyd i gorff briwedig y ferch anffodus ar Fynydd Pencarreg gan rai pobl ar eu ffordd i le o addoliad y boreu canlynol, mewn afonig fechan, dyfroedd yr hon oeddynt wedi eu lliwio gan ei gwaed am tua dwy filltir. Cafodd y carcharor ei brofi o flaen yr Ynad Goulbourn, ar y 15fed o Fedi; dedfrydwyd ef am tua 11eg o'r gloch y nos, a chyn y wawr darfu iddo gyfaddef ei euogrwydd wrth ddau gwnstabl oeddynt yn gofalu am dano.

---

TRIGOLION Sir Gaerfyrddin,
Ac Aberteifi wiw,
A phawb o'r Cymry mwynion
Sy'n rhodio ar dir y byw,
Gwrandewch ar hyn o hanes
Truenus i'w goffhau,
Sy'n rhybudd mawr i'r ie'nctyd,
Ac hefyd i bob rhai.

'Nol magu plant yn anwyl,
A'u meithrin fore a hwyr,
Pa beth ddaw i'w cyfarfod,
'Does neb ond Duw a wyr,
Ond gweddïwn ar yr Arglwydd,
I'w cadw rhag y Fall,
Nis gwyddom beth ddaw iddynt,
O fore hyd y llall.

'R oedd merch yn mhlwyf Pencarreg,
Yn swydd Gaerfyrddin fawr,
A'i henw Hannah Davies,
Boed hysbys i chwi nawr;

A hono mewn gwasanaeth,
  Yn barchus iawn yn bod,
Yn caru â mab ieuanc
  O gwmpas ugain oed.

Ond *pryfio* wnaeth yn feichiog,
  Fel llawer gyda hi,
A thraethu wnaeth i'w chariad,
  " Yn feichiog yr wyf fi ; "
A gofyn wnaeth i'w meistres,
  A gai hi ganiatad
'Fynd adref ar nos Sadwrn,
  I wel'd ei mam a'i thad.

A'i meistres a ddywedai,
  " O brysia, gwna dy waith,
Cai fyn'd brydnawn yn gynar,
  Wyth milltir sydd yn faith : "
Atebai Hannah'n dirion
  A mwynaidd iddi hi,
" Nid af fi ddim mor gynar,
  Mae cwm'ni gydaf fi."

Ond yn yr hwyr cychwynodd,
  I fyn'd tua thŷ ei thad,
Heb feddwl fod ei chwm'ni
  O fwriad gwneud ei brad :
Ac yna boreu dranoeth,
  Rhyw ffermwr ddaeth yn fwyn
I edrych am ei ddâoedd,
  Ei ddefaid oll a'i ŵyn.

Fe welai gorff yn gorwedd
  Yn farwol ar y ma's,
A'r gwaed yn mhell o amgylch
  Yn lliwio'r borfa lâs ;
A'i gên oedd wedi ei thori,
  A phont ei hysgwydd hi ;
Ei breichiau hardd bron ymaith,
  A'i borddwyd oll yn ddu.

X205196968

Ei gwddf oedd wedi ei dori,
  Mae digon 'nawr o dyst,
(Echrydus ydyw adrodd !)
  Yn groes o glust i glust!
Ymdrechodd am ei bywyd
  Tra par'odd ynddi waed,
Nes oedd yn lliwio'i dillad,
  Ei dwylaw oll, a'i thraed.

Pan ydoedd gwaed ei chalon
  Yn llifo ar y llawr,
Yn llanw ei 'sgidiau a'i 'sanau,
  Hi gerddodd bellder mawr !
A'r gwaed sydd yno heddyw
  I'w wel'd yn lwybr du,
Yn gwaeddi'n groch am ddial,
  Am ddwyn ei bywyd cu.

Dych'mygwn 'nawr ei chlywed
  Yn ymbil arno'n gry',
"Gadewch, er mwyn yr Arglwydd,
  Fy mywyd bach i mi !
Mi'ch cerais i chwi'n anwyl,
  Gwn'es bobpeth er eich mwyn,
Pa fodd y gall eich calon
  Fy mywyd bach i ddwyn ?

"Er 'mod i 'nawr yn feichiog,
  Un gofid ni chewch chwi,
O'm hachos i a'm plentyn
  Fy mywyd rho'wch i fi ;
Och ! Och ! fy anwyl gariad,
  Gwnaf unpeth er mwyn byw,
Peth melus iawn yw bywyd,
  O ! peidiwch, er mwyn Duw."

Hi gerddodd'n agos filltir,
  A'i gwaed yn lliwio'r lle,
Gan ymladd am ei bywyd,
  Ac erfyn arno fe ;

Ac yntau'r filain gwaedlyd,
  Heb wrando'r eneth wen,
A holltai'i gên â'r bilwg,
  A thorai ffwrdd ei phen !

Ei gwàr a dorodd trwodd,
  A chlwyfai'r dwylaw glân,
Ei chorff oedd gan y cigydd
  Bron oll yn ddarnau mân ;
Ni welodd neb fath laddfa—
  Fath olwg ar gorff dyn,
Nac unrhyw ddynes hefyd,
  Fel tystiant 'nawr bob un :

Ai chariad hi sydd heddyw
  O fewn y carchar du,
Yn gwaeddi, " Gwae (os euog)
  Erioed fy ngeni i ! "
A'i enw David Evans,
  O dylwyth parchus iawn,
Y rhai sydd bron gwallgofi
  Foreuddydd a phrydnawn.

A phawb o ffryndiau'r eneth,
  Mewn hiraeth oll fe'u cawn,
A'i thad a'i mam sydd hefyd
  Mewn tristyd enbyd iawn ;
Mae thad yn methu cysgu,
  Na gorphwys nos na dydd,
A'i mam ar golli'i synwyr,
  A i chalon fach yn brudd.

Boed hyn o dro yn rhybudd
  I bawb o'r ie'nctyd gwiw,
I 'mwrthod a'r fath bechod,
  A gweddio mwy ar Dduw
Am nerth i rodio'r llwybrau
  Sy'n tywys tua'r nen,
Fel byddont gyda'r Iesu,
  Mewn mwyniant byth. Amen.

Llanfaeryw [neu Cilcennin.] STEPHEN JONES.